



Teilwng yw

Wrth wneud paned mi oedais ennyd i ddarllen y botel lefrith a dysgu o'r newydd mai 2.272 litr ydi 4 peint. Mi deimlais beth cywilydd nad oeddwn wedi cefnogi ffermwyr Cymru gan mai Jac yr Undeb yn hytrach na'r Ddraig Goch oedd ar y botel blastig. Ac mi ddeallais i mi 'roi 23 ceiniog yn ôl i ffermwyr' – pwy bynnag ydynt a lle bynnag y maent – trwy brynu'r botel.

Wyddwn i ddim beth i'w feddwl o'r nodyn am y 23 ceiniog. Yn amlwg, roedd yr archfarchnad a werthodd y llefrith i mi'n falch o'r nodyn; mor falch nes ei osod ddwywaith ar y botel. Ond a minnau wedi talu £1.33 am 2.272 litr, mae'n rhyfedd meddwl mai dim ond 23 ceiniog y mae'r ffermwyr yn ei dderbyn (sef 10.12 ceiniog y litr) a hithau'n costio rhwng 25 a 35 ceiniog i gynhyrchu litr o lefrith, yn dibynnu ar system a maint y fferm. Go brin fod gan yr archfarchnad reswm dros ymffrostio!

Ond nid y pris a'm trawodd gyntaf ond geiriad y nodyn hwn am 'roi yn ôl i ffermwyr', fel pe byddai'r ffermwyr yn elusen o ryw fath, a ninnau wrth brynu llefrith yn rhoi cildwrn iddynt. Ond dyd-yn ni'n dda, ni a'r archfarchnad, yn rhoi ein ceiniogau i'r ffermwyr? Ydw i'n annheg â'r archfarchnad? Onid yr hyn a ddisgwylir gennym yw ein bod yn talu pris teg i'r ffermwyr am eu holl waith caled yn cynhyrchu'r llefrith ar ein cyfer? Mae byd o wahaniaeth rhwng hynny a rhoi rhywfaint o arian yn ôl iddynt. Mae'r ffermwr, fel pob gweithiwr, yn haeddu ei dâl.

Dyna'r egwyddor a reolai ymateb Iesu Grist pan ofynnwyd iddo a ddylid talu treth i Gesar. Ceisio ei rwydo i roi ateb y gellid ei feirniadu amdano yr oedd y bobl a'i holodd, ond ateb gwych Iesu oedd, 'Talwch bethau Cesar i Gesar, a phethau Duw i Dduw' (Mathew 22:21). Roedd hyd yn oed yr Ymerawdwr meddai, yn deilwng o gael, trwy'r dreth, dâl am yr hyn yr oedd yn ei ddarparu ar gyfer pobl. Ond nid oedd hwnnw'n deilwng o gael ei garu a'i addoli. Dim ond Duw sydd yn deilwng o hynny.

Nid yw Cristnogion yn rhoi clod a mawl i Dduw am eu bod yn meddwl ei fod yn syniad da nac am eu bod yn mwynhau gwneud hynny. Un peth sy'n eu cymell, sef yr argyhoeddiad fod Duw'n deilwng o'r clod a'r mawl a'r diolch. Nid gwneud cymwynas â Duw yr ydym wrth ei addoli, Ac yn sicr, nid yw'r Arglwydd Dduw yn elusen sy'n ddibynnol arnom am barch a gwasanaeth ac ufudd-dod.

Yr ydym addoli Duw am ei fod yn gwbl deilwng o'n clod. Yr ydym yn ei garu am ei fod yn haeddu cael ei garu. Yr ydym yn ei wasanaethu am mai dyna sy'n iawn i ni ei wneud. Y mae'r Duw a'n carodd ac a roddodd i ni gymaint o fendithion yn deilwng o'r cyfan y medrwn ei roi iddo. Mwy na hynny, y mae'n deilwng o gael ein calonnau. Mae'n deilwng o gael y cyfan ydym am ei fod wedi'n caru a'n hanrhydeddu trwy roi i ni, yn ei Fab Iesu Grist, frawd a cheidwad gogoneddus. Ac ar Wyl y Geni, dathlwn ddyfodiad y Mab hwnnw i'r byd, a ninnau'n gwybod ei fod yn deilwng o'r gorau a'r cyfan y medrwn ei gynnig iddo.

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 753: 17 Rhagfyr, 2017



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda

Cyhoeddir rhifyn nesaf *Gronyn*

ar Sul cyntaf y flwyddyn newydd,

dydd Sul, Ionawr 7, 2018

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

‘Yr wyt ti, Arglwydd, yn dda a maddeugar, ac yn llawn trugaredd i bawb sy'n galw BEIBL BYW arnat. Clyw, O ARGLWYDD, fy ngweddi, a gwranddo ar fy ymbil. Yn nydd fy nghyfyngder galwaf arnat, oherwydd yr wyt ti yn fy ateb. Nid oes neb fel ti ymhlith y duwiau, O Arglwydd, ac nid oes gweithredoedd fel dy rai di. Bydd yr holl genhedloedd a wnaethost yn dod ac yn ymrymu o'th flaen, O Arglwydd, ac yn anrhydeddu dy enw. Oherwydd yr wyt ti yn fawr ac yn gwneud rhyfeddodau; ti yn unig sydd Dduw’ (Salm 86:5–10).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd y perfformiad o 'Gair yn Gnawd', a gafodd ei ohirio'r Sul diwethaf, am 7.00 o'r gloch heno.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Am 4.00 o'r gloch bydd Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul a'r ieuenctid.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Am 2.00 o'r gloch cynhelir oedfa Nadolig yr Ysgol Sul.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Gair yn Gnawd

Ddaeth yr eira ddim wedi'r cyfan wedi i ni benderfynu ddydd Sadwrn diwethaf mai doeth fyddai gohirio'r cyflwyniad o'r Cantawd 'Gair yn Gnawd' yn Capel Coch. Ac felly rhown gynnig arall arni heno am 7.00 o'r gloch.

Mae'r tocynnau a brynwyd ar gyfer yr wythnos ddiwethaf yn ddilys heno wrth gwrs. A chan ei bod yn debygol na fydd amryw a brynodd docyn yn medru dod heno, mentrwn ddweud y bydd modd talu wrth y drws heno. Os nad oes gennych docyn, felly, peidiwch â phoeni. Dowch prun bynnag.

Methu dod heno?

Os ydych wedi prynu tocyn ar gyfer 'Gair yn Gnawd' ond yn methu â dod heno, mi fydd modd cael eich arian nôl oherwydd i ni orfod gohirio cyflwyniad nos Sul diwethaf.

Cysylltwch â'r Gweinidog, os gwelwch yn dda, trwy ddechyd y tocyn neu'r tocynnau mewn amlen i Cilfynydd, Llanberis mor fuan â phosibl. Mi wnawn ni drefnu i chi gael eich arian nôl mor fuan ag y bo modd.

Noson Garolau Cymdeithas Llanberis

Cafwyd noson o garolau dan lywyddiaeth y Gweinidog yng nghyfarfod Rhagfyr y Gymdeithas Undebol yn Capel Coch nos Fawrth diwethaf. Diolch i Gareth Jones am gyfeilio ac i Valerie Jones am drefnu bod digon o fins peis a bara brith i bawb.

Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol y Capel yn cau ddydd Sul Rhagfyr 31, 2017. Bydd pob cyfraniad a dderbynnir wedyn yn cael ei roi yng nghyfrifon y flwyddyn 2018.

Cyfraniadau ariannol

Diolch am bob cyfraniad ariannol at waith eglwysy'r Ofalaeth eleni eto. Bydd trysoryddion pob eglwys yn sicr yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau pellach y dymuna'r aelodau eu gweud cyn diwedd y flwyddyn gan y bydd yn amlwg yn hwyluso eu gwaith.

Dydd Nadolig

Cynhelir Oedfa Gymun am 10.00 o'r gloch yn Capel Coch fore dydd Nadolig.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 24: Ni fydd oedfa.
Dydd Sul, Rhagfyr 31: Oedfa am 2.00 o'r gloch.
Dydd Sul, Ionawr 7: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Rhagfyr 24: Gwasanaeth Nadolig y Plant am 10.30 o'r gloch.
Dydd Sul, Rhagfyr 31: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Euron Hughes, Llanuwchllyn. Ni fydd Ysgol Sul.
Dydd Sul, Ionawr 7: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones, Bethel. Ni fydd Ysgol Sul.

CARMEL

Dydd Sul, Rhagfyr 24: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.
Dydd Sul, Rhagfyr 31: I'w gyhoeddi yn yr oedfa y Sul cynt.
Dydd Sul, Ionawr 7: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Rhagfyr 24: Ni fydd oedfa.
Dydd Sul, Rhagfyr 31: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg R O Jones, Gaerwen.
Dydd Sul, Ionawr 7: Cynhelir oedfa am 2.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 24: Ni fydd oedfa.
Dydd Sul, Rhagfyr 31: Ni fydd oedfa.
Dydd Sul, Ionawr 7: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

**GAIR
YN
GNAWD**

SIOE GERDD
FESTRI
CAPEL COCH

Ail drefnwyd ar gyfer
nos Sul, Rhagfyr 17
am 7.00 o'r gloch

MYNEDIAD £5
Tocynnau Gan Aelodau'r Côr Neu Talu ar y Drws
At Apêl- CORWYNT CARIAD
DEREC WILLIAMS
LINDA GITTINS
PENRI ROBERTS